Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau drafft ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol

## Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ganllawiau drafft ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig - Crynodeb o'r Ymatebion**'.

**Mawrth 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 32**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Website:**
www.llyw.cymru/canllawiau-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig

**Email:** SeneddReform@gov.wales

**© Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51838, ISBN digidol 978-1-83715-444-9**

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y canllaw amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ..... 4**

**Beth mae pobl wedi ei ddweud ..... 9**

**Geiriau anodd ..... 32**

# Am y canllaw amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol




Fe ddaeth deddf newydd allan o'r enw **Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024**.



Rhan o hyn ydy cefnogi **pleidiau** gwleidyddol yng Nghymru gydag **amrywiaeth** a **chynhwysiant**.



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp o bobl sydd â syniadau tebyg am sut i redeg gwlad.




Mae **amrywiaeth** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud dewisiadau gwahanol ac mae ganddyn nhw anghenion gwahanol.



Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod unrhyw un yn gallu cymryd rhan a chael cyfle teg.




Fe wnaethon ni ysgrifennu canllaw drafft i helpu **pleidiau gwleidyddol** i fod yn fwy **amrywiol**. Mae'r canllaw yn cynnwys gwneud pethau fel:




- Gwneud cynlluniau am **amrywiaeth** a **chynhwysiant** ar gyfer holl etholiadau Cymru.



- **Cyhoeddi** gwybodaeth am **amrywiaeth**.

Mae **cyhoeddi** yn meddwl rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd.



Mae hyn yn meddwl **cyhoeddi** gwybodaeth am:

- **Ymgeiswyr** etholiad y Senedd

> Mae **ymgeisydd** yn berson sy'n sefyll etholiad. Maen nhw'n gofyn i bobl bleidleisio drostyn nhw.



- ac Aelodau etholedig o'r Senedd



- Cael mwy o fenywod yn Aelodau o'r Senedd.




Mae fersiwn hawdd ei ddeall llawn o'r canllaw drafft ar gael yma: [www.llyw.cymru/canllawiau-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig](www.llyw.cymru/canllawiau-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig)



Roedden ni eisiau gwybod beth roedd pobl yn feddwl am y canllaw drafft.



Rydyn ni wedi cael cyfarfodydd gyda grwpiau gwahanol.




Fe wnaethon ni hefyd ofyn i bobl ateb arolwg ar-lein.



Rydyn ni wedi cael 49 o ymatebion gan:

- unigolion
- sefydliadau
- **pleidiau gwleidyddol**
- ac eraill.




Mae’r adroddiad yma am beth mae pobl wedi ei ddweud am y canllaw.



**Rhai o'r pethau mae pobl wedi ei ddweud am y canllaw drafft oedd:**

- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â'r rhestr o grwpiau rydyn ni'n credu sydd angen eu cynnwys mwy. Roedd rhai yn credu y dylai ddilyn beth sydd yn y ddeddf o'r enw **Deddf Cydraddoldeb 2010**.

- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn hoffi cwestiynau'r arolwg. Ond roedd rhai yn meddwl y dylen nhw ddilyn beth sydd mewn rhai arolygon eraill.

- Roedd rhai pobl yn meddwl y dylid rhoi diffiniadau, er enghraifft ar gyfer rhyw, rhywedd a menyw.

- Roedd nifer o bobl yn poeni nad oes deddf i ddilyn y canllawiau.

- Roedd rhai yn poeni y byddai'n waith mawr i bleidiau bach wneud y gwaith yma. Mae angen cefnogaeth.

- Roedd pryderon am ofalu am wybodaeth breifat pobl.

- Roedd rhai eisiau mwy o gefnogaeth i **ymgeiswyr** sy'n fenywod.

- Roedd llawer o bobl yn credu bod angen polisïau i helpu i amddiffyn **ymgeiswyr** rhag cael eu trin yn wael.

- Doedd rhai ddim yn cytuno â nod a phwrpas y canllawiau.

# Beth mae pobl wedi ei ddweud

## Cwestiwn 1



**Fe wnaethon ni ofyn oedd pobl yn cytuno gyda'r rhestr o grwpiau rydyn ni'n credu sydd angen eu cynnwys mwy.**




Mae'r rhestr lawn ar dudalen 13 o'r canllaw hawdd ei ddeall: www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-11/canllawiau-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig-canllawiau-drafft-hawdd-ei-ddeall.pdf



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â'r rhestr.




Dywedodd rhai pobl y dylid dilyn y rhestr yn y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'r rhestr yma ychydig yn wahanol i'n rhestr ni yn y canllaw.




Dywedodd rhai pobl bod angen i'r geiriau a'r termau rydyn ni'n eu defnyddio fod yn gliriach. Er enghraifft, pan fyddwn ni'n siarad am dermau fel **traws**, **rhywedd** a **rhyw**. Mae'n gallu bod yn anodd casglu gwybodaeth am y pethau yma.



Fe wnaeth rhywun siarad am yr iaith mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei defnyddio i ddisgrifio anabledd. Mae'n gweld pobl anabl fel y broblem.



Ffordd well o ddeall anabledd ydy defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae hyn yn dweud bod pobl yn anabl oherwydd rhwystrau mewn cymdeithas.



Dywedodd rhai y dylen ni ychwanegu pethau o restr y **Ddeddf Cydraddoldeb** at ein rhestr. Fel beichiogrwydd a'r amser ychydig ar ôl cael babi. Oherwydd mae gofal plant yn gallu bod yn rhwystr rhag cymryd rhan.



Dywedodd pobl ei bod hi'n bwysig cydnabod bod pobl yn gallu bod o nifer o grwpiau ar y rhestr.



Mae bod yn rhan o nifer o grwpiau yn gallu ei gwneud hi'n fwy tebygol fyth o gael eich gadael allan.





Dywedodd rhai pobl y dylid dewis **ymgeiswyr** oherwydd eu gallu. Dim yn unig oherwydd eu bod yn perthyn i grŵp sydd fel arfer yn cael ei adael allan.




Roedd sylwadau eraill am gyflogaeth ac addysg. Fe ddylid cydnabod pobl am wahanol brofiadau a chyfleoedd bywyd.

## Cwestiwn 2




**Fe wnaethon ni ofyn oedd pobl yn cytuno â'r camau roedd pleidiau gwleidyddol yn gallu eu cymryd, er mwyn gwella amrywiaeth a chynhwysiant.**



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â'r camau gweithredu.




Dywedodd rhai pobl efallai na fydd y canllaw yn cael llawer o effaith. Oherwydd does dim rhaid i **bleidiau gwleidyddol** ei ddilyn yn ôl y gyfraith.



Roedd rhai pobl yn meddwl y dylen ni gefnogi **pleidiau gwleidyddol** i ddilyn y canllaw.



Er enghraifft, sefydlu gweithgor rhwng pleidiau. Gallen nhw ddysgu gyda'i gilydd a rhannu syniadau.



Hefyd, fe ddylai'r canllawiau esbonio sut mae pleidiau yn gallu cael cyllid a fyddai'n cefnogi gwaith ar **amrywiaeth** a **chynhwysiant**.



Dywedodd rhai pobl unwaith eto y dylid dewis **ymgeiswyr** yn ôl eu gallu i wneud y gwaith yn dda. Ac y dylen ni ganolbwyntio mwy ar ei gwneud hi'n haws cymryd rhan.




Fe wnaeth ychydig o bobl siarad am sut roedd y ffordd rydyn ni'n pleidleisio yn etholiadau'r Senedd yn newid yn 2026.

Roedden nhw'n dweud y bydd y newid yn meddwl bod gan **bleidiau gwleidyddol** fwy o rym dros bwy maen nhw'n dewis fel **ymgeiswyr**. Mae hyn yn gallu meddwl bod **ymgeiswyr** yn dod yn llai **amrywiol**.




Roedd rhai syniadau eraill am sut i gefnogi **amrywiaeth**. Er enghraifft:

- Mae'r canllaw yn gallu rhoi rhestr o gamau gweithredu mae pleidiau yn gallu eu cymryd. A dangos y manteision fyddai'r rhain yn eu cael.
- Fe ddylai'r canllaw wneud yn siŵr nad ydy pobl o wahanol grefyddau'n cael eu gadael allan. Mae'n rhaid parchu meddyliau a chredoau gwahanol.
- Fe ddylai'r canllaw roi syniadau am ddiogelu **ymgeiswyr** pan maen nhw'n cael eu trin yn annheg. Er enghraifft, gan y cyfryngau.
- Fe ddylai pleidiau gael **Hyrwyddwyr Cydraddoldeb**. Mae'r rhain yn bobl sy'n arwain ar faterion cydraddoldeb yn y blaid.



**Fe wnaethon ni ofyn beth arall mae pleidiau gwleidyddol yn gallu ei wneud i wella amrywiaeth a chynhwysiant.**



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl y dylen nhw wneud mwy.



Roedd rhai pobl yn meddwl y dylai **pleidiau gwleidyddol** siarad â grwpiau **amrywiol** yn fwy.
A darparu sesiynau hyfforddi i grwpiau i'w helpu i gymryd rhan.




Roedd rhai yn meddwl y dylai **pleidiau gwleidyddol** edrych ar eu gwaith ar **amrywiaeth** a **chynhwysiant** yn rheolaidd.





Roedd rhai pobl yn meddwl y dylai **pleidiau gwleidyddol** feddwl am oriau gwaith a sut mae pobl yn gweithio. I wneud pethau'n haws i ofalwyr a rhieni.




Roedd rhai pobl yn dweud eto y dylid dewis pobl oherwydd eu gallu.




Roedd rhai safbwyntiau eraill am osod nodau a gweithio'n galed i wella **amrywiaeth** a **chynhwysiant**.




Dywedodd rhai y dylai **pleidiau gwleidyddol** siarad mwy am **amrywiaeth** a **chynhwysiant** yn eu cynlluniau a'u gwaith.




Fe **ddylai pleidiau** roi gwybodaeth glir am ddewis **ymgeiswyr**.



Fe **ddylai pleidiau** gefnogi **ymgeiswyr**. Yn enwedig y rhai sy'n sefyll am y tro cyntaf. Ar ôl etholiad.



Dywedodd nifer o bobl hefyd fod hyfforddiant **amrywiaeth** i'r **blaid wleidyddol** yn bwysig.

## Cwestiwn 4




**Fe wnaethon ni ofyn beth oedd pobl yn feddwl am y templed arolwg ymgeiswyr ar dudalen 27 o'r canllaw drafft:**




[www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-11/canllawiau-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig-canllawiau-drafft-hawdd-ei-ddeall.pdf](www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-11/canllawiau-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig-canllawiau-drafft-hawdd-ei-ddeall.pdf)




Roedd ychydig dros hanner y bobl yn cefnogi'r syniad o'r arolwg.



Roedden nhw'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol casglu gwybodaeth am **amrywiaeth**. Fe fydd hefyd yn dangos sut mae'r blaid yn gwneud o ran **amrywiaeth**.




Fe wnaeth pobl awgrymiadau ar sut i wella sut roedd rhai cwestiynau wedi cael eu hysgrifennu. Er enghraifft drwy ddilyn yr iaith sydd yn cael ei defnyddio yng Nghyfrifiad Cymru a Lloegr.




Hefyd, i ddefnyddio iaith y **Model Cymdeithasol o Anabledd**. Mae hyn yn golygu edrych ar y rhwystrau mae cymdeithas yn eu gosod ar bobl anabl. Dim meddwl am bobl anabl fel y broblem.



Fe wnaethon nhw ddweud y dylai fod lle i bobl ysgrifennu mwy o wybodaeth.




Ac y dylai fod mwy o opsiynau i ddangos gwahanol fathau o addysg oedd wedi cael ei gyflawni.



Roedd rhai yn meddwl bod angen mwy o fanylion am fod yn rhiant.



Roedd rhai pobl yn meddwl y dylai cwestiynau'r arolwg gyd-fynd â'r rhai mae llywodraeth leol yn eu defnyddio.




Fe wnaeth ychydig o bobl siarad am bwysigrwydd cadw gwybodaeth breifat pobl yn saff ac yn ddiogel.



Roedd rhai yn meddwl bod yr arolwg yn rhy hir.



**Fe wnaethon ni ofyn fyddai'r canllaw yn helpu pleidiau gwleidyddol i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth amrywiaeth.**



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl y byddai.




Dywedodd rhai pobl nad oedd deddf roedd rhaid i **bleidiau gwleidyddol** ei dilyn. Felly, roedd hyn yn gallu ei gwneud yn llai defnyddiol.




Roedd gan rai pobl bryderon am edrych ar ôl gwybodaeth breifat.



Roedd rhai pobl yn meddwl y byddai casglu mwy o wybodaeth am **amrywiaeth** yn helpu pleidiau i ddeall y materion yn fwy.



Dywedodd rhai ei bod yn bwysig i **bleidiau gwleidyddol** ddeall **pam** ei bod yn bwysig casglu'r wybodaeth yma.



Roedd rhai pobl yn meddwl y dylai **pleidiau gwleidyddol** **orfod** casglu'r math yma o wybodaeth.

## Cwestiwn 6



**Fe wnaethon ni ofyn fyddai'r canllaw yn helpu i wneud yn siŵr bod mwy o ymgeiswyr sy'n fenywod.**



Roedd pobl yn meddwl pethau gwahanol am fyddai hyn yn helpu.





Roedd rhai pobl yn meddwl y byddai'r canllaw yn helpu i gael mwy o **ymgeiswyr** sy'n fenywod Roedd rhai pobl yn anghytuno â'r syniad.




Roedd gan rai pobl bryderon am ddefnyddio'r gair 'rhywedd' yn lle 'rhyw'. Mae angen i ni fod yn glir ynghylch pa wybodaeth rydyn ni'n gofyn amdani.



Soniodd y canllaw am **gwotâu gwirfoddol**. Mae hyn yn meddwl bod pleidiau yn dewis isafswm o fenywod mae'n rhaid iddyn nhw gael fel **ymgeiswyr**.



Mae hyn oherwydd bod hanner poblogaeth Cymru yn fenywod. Felly, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cynrychioli pobl Cymru yn llawn, fe ddylai hanner yr Aelodau o'r Senedd fod yn fenywod.



Roedd rhai pobl yn anghytuno â chwotâu o gwbl.




Roedd rhai pobl yn meddwl y dylen ni gael **cwotâu statudol**. Mae hyn yn meddwl y byddai'n rhaid i bleidiau gael isafswm o fenywod sy'n ymgeiswyr yn ôl y gyfraith.



Roedden nhw'n teimlo na fydden ni'n cael mwy o **ymgeiswyr** sy'n fenywod, os na fyddai pleidiau yn gorfod gwneud hynny yn ôl y gyfraith.



Dywedodd rhai pobl y dylid defnyddio cwotâu ar gyfer grwpiau eraill hefyd. Er enghraifft, bod ag isafswm nifer o **ymgeiswyr** anabl.



Dywedodd rhai pobl y dylid dweud mwy wrth bleidiau am fanteision defnyddio **cwotâu**.



Roedd rhai pobl yn siarad am broblemau eraill mae menywod yn eu hwynebu. Er enghraifft, menywod sydd hefyd o gefndir sydd ddim yn wyn nac yn Brydeinig.



Dywedodd pobl hefyd y dylid cynnig cymorth i **ymgeiswyr** sydd â llai o gyfleoedd bywyd. Er enghraifft, os nad ydyn nhw wedi cael cyfle i gael addysg dda. Neu yn dod o gymuned dlawd.

## Cwestiwn 7



**Fe wnaethon ni ofyn fyddai unrhyw beth arall mae pleidiau gwleidyddol yn gallu ei wneud i gael mwy o fenywod yn y Senedd.**



Dywedodd rhai y dylai pleidiau feddwl am sut i gefnogi menywod gyda dyletswyddau gofal plant a gofalu.



Hefyd, bod yn gyfeillgar i'r teulu a gweithio'n hyblyg. Er enghraifft, cynllunio cyfarfodydd o gwmpas dyletswyddau gofalu. Fel gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu mynd i gyfarfodydd **a** chasglu plant o'r ysgol.



Fe **ddylai pleidiau** gynnig rhaglenni hyfforddi a chymorth i fenywod. A meddwl am raglenni arweinyddiaeth, er mwyn gwneud yn siŵr bod menywod yn gallu cyrraedd swyddi uwch.




Dywedodd rhai pobl y **dylai pleidiau** gael rheolau a pholisïau i gadw menywod yn ddiogel mewn gwaith. A gweithdrefnau da i roi gwybod am bethau a delio â chwynion.

Roedd llawer o syniadau eraill. Er enghraifft:




- Gweithio gyda menywod a gwrando arnyn nhw.
- Helpu gyda chostau fel gofal plant a thrafnidiaeth.
- Edrych i gael credoau **amrywiol** yn y blaid.
- Bod â rheolau i amddiffyn pobl rhag cael eu trin yn wael.
- Gweithredu pan nad ydy rheolau yn cael eu dilyn.




**Yng nghwestiynau 8 a 9 fe' wnaethon ni ofyn pa effaith mae'r canllaw yn gallu ei gael ar y Gymraeg. A sut rydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn deg.**



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn hapus na fyddai'r Gymraeg yn cael ei heffeithio mewn ffordd wael.




Roedd llawer yn credu ei fod yn rhoi cyfle i bleidiau ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.




Dywedodd rhai pobl y dylai pob arolwg a gwybodaeth fod yn Gymraeg hefyd.




Roedd rhai yn credu y dylai **ymgeiswyr** gael cynnig y cyfle i ddysgu Cymraeg.




Roedd llawer o bobl yn meddwl ei bod hi'n bwysig i'r Gymraeg gael ei thrin yn gyfartal i'r Saesneg.



Roedd rhai yn meddwl bod trin y Gymraeg yn gyfartal i'r Saesneg yn gallu achosi rhwystr i'r rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg.

## Cwestiwn 10



Fe wnaethon ni ofyn os oedd unrhyw beth arall roedd pobl eisiau ei ddweud am y canllaw.



Mae’r rhan fwyaf o sylwadau wedi cael eu hysgrifennu yn y cwestiynau eraill.

Dyma rai syniadau eraill:




- Dod o hyd i ffordd o wneud pleidiau yn fwy cyfrifol am **amrywiaeth** a **chynhwysiant**.

- Gwneud yn siŵr bod Aelodau'r Senedd yn gallu aros yn eu swydd am gyfnod penodol yn unig.

- Cynnig cefnogaeth i **ymgeiswyr** o gefndiroedd **amrywiol**.

- Siarad â grwpiau **amrywiol** a gwybod beth maen nhw'n feddwl am gymryd rhan.

- Mae'n gallu bod yn fwy anodd i **bleidiau** bach ddilyn y canllaw. Does ganddyn nhw ddim cymaint o arian â rhai mwy.

- Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth breifat pobl yn cael ei chadw'n ddiogel.

- Pryderon nad oedd y canllaw ar gael mewn pryd i gynllunio ar gyfer etholiad Senedd 2026.

# Geiriau Anodd

### Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud dewisiadau gwahanol ac mae ganddyn nhw anghenion gwahanol.

### Cyhoeddi

Mae hyn yn meddwl rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd.

### Cynhwysiant

Mae cynhwysiant yn meddwl bod unrhyw un yn gallu cymryd rhan a chael cyfle teg.

### Plaid wleidyddol

Mae plaid wleidyddol yn grŵp o bobl sydd â syniadau tebyg am sut i redeg gwlad.

### Ymgeisydd

Dyma berson sy'n sefyll etholiad, maen nhw'n gofyn i bobl bleidleisio drostyn nhw.